



## **Swydd Ddisgrifiad: Cynorthwy-ydd Prosiect – Cymunedau Cerdd**

Rydym yn dymuno penodi person trefnus iawn i gydweithio gyda'r Cydlynnydd Prosiect i gydgordio'r prosiect cyffrous newydd Cymunedau Cerdd ym Mangor a Chaernarfon.

### **Cefndir**

Mae *Sistema Cymru - Codi'r To* yn brosiect adfywio cymunedol gyda'r nod o ddefnyddio cerddoriaeth fel ffordd o wella bywydau unigolion a chymunedau.

Wedi ei ysbrydoli gan y dull El Sistema, In Harmony a'r Big Noise fyd enwog, mae'r prosiect yn gweithio gyda dwy ysgol gynradd, Ysgol Glancegin, Bangor ac Ysgol Maesincla, Caernarfon a'u cymunedau lleol ac yn darparu yn bennaf profiadau cerddorol a thiwтора offerynnol gyda grwpiau blwyddyn gyfan o blant.

Anelwn i'r cyfan fod yn ysbrydoledig a gwednewidiol i blant, teuluoedd, ysgolion a chymunedau. Trwy ymgysylltu cerddorol o safon, rydym yn ymdrin â phlant difreintiedig sydd wedi tangyflawni'n addysgiadol, gan geisio codi eu disgwyliadau a thrwy hynny wella cyfleoedd bywyd iddynt.

Mae tîm o diwtoriaid cerdd yn ymweld â'r ysgolion nifer o weithiau bob wythnos i arwain gweithgareddau offerynnol a chanu, gan weithio gyda'r athrawon i drwytho gweithgareddau cerdd rheolaidd i mewn i waith yr ysgol. Mae'r prosiect ar gael i bob plentyn mewn grŵp blwyddyn gan rhoi cyfle a phrofiad i bawb beth bynnag fo'u gallu cerddorol. Mi fydd prosiect Cymunedau Cerdd yn cynnal clybiau i blant, rhieni ac aelodau'r gymuned ar ôl ysgol, ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau ysgol. Mi fydd prosiect Cymunedau Cerdd Codi'r To yn gwneud cysylltiadau â theuluoedd a'r gymdogaeth o amgylch yr ysgolion, gan gyflwyno cerddoriaeth fyw i mewn i gartrefi pobl ac i leoedd eraill yn y gymuned.

**Swydd ar gael:** Cynorthwy-ydd Prosiect  
**Lleoliad:** Ardal Bangor a Chaernarfon. Swyddfa yn Noddfa, Caernarfon  
**Oriau:** 15 awr yr wythnos  
**Cytundeb:** 2 flynedd  
**Cyflog i'w drafod yn ddibynnol ar brofiad (rhwng £17,000 - £18,525 pro rata)**

Ceisiadau trwy lythyr gan gynnwys CV ynghyd ac enw dau unigolyn all gyflwyno geirda. Ceisiadau i gyrraedd erbyn 12:00 ganol dydd Mercher Chwefror 19eg 2020 at [carys@codirto.com](mailto:carys@codirto.com)

Carys Bowen  
Cydlynnydd Sistema Cymru Codi'r To  
Canolfan Noddfa  
Cil Peblig  
Caernarfon  
Gwynedd  
LL55 2RS

01286 238200

### **Pwrpas y swydd:**

Gweithio gyda'r Cydlynnydd i weinyddu a chydlynnu rhaglen Cymunedau Cerdd o ddydd i ddydd gan weithio gyda thiworiaid cerdd, ysgolion, disgyblion ysgol, y gymuned leol a darparwyr addysgiadol a chelfyddydol eraill. Mi fydd disgwyl i'r Cynorthwy-ydd drefnu a rhedeg clybiau cerdd ar ol ysgol, cadw cofrestrau, trefnu cyngherddau a pherfformiadau cymunedol, annog gwirfoddolwyr a bod yn gyswllt rhwng Codi'r To a'r ddwy gymuned.

### **Yn atebol i:**

Y Cydlynnydd

### **Ein anghenion:**

#### Hanfodol

- Lefel uchel o allu mewn tasgau gweinyddol gan gynnwys prosesu geiriau safonol, taenlenni, Microsoft Publisher, rhaglenni a chronfeydd data.
- Y gallu i weithio'n gywir, i gynnal systemau effeithiol o gadw cofnodion ac i baratoi adroddiadau cywir a phrydlon.
- Y gallu i gadw cofrestrau disgyblion cywir ar gyfer clybiau ar ol ysgol a chlybiau haf.
- Y gallu i gyfathrebu'n ddyddiol yn ysgrifenedig ac ar lafar yn Gymraeg a Saesneg, a hynny'n lân ac yn gywir.
- Y gallu i gydweithio â thîm bychan o bobl.
- Y gallu i weithio'n annibynnol heb gyfarwyddyd cyson.
- Yn berson trefnus, awyddus, barod amdani, ond hefyd yn aelod da o dîm; yn fodlon gweithio'n hyblyg yn ôl y galw i gyflawni'r rhaglen.
- Cyfathrebwr gwych gyda phlant ifanc ac oedolion.
- Diddordeb mewn adfywio cymdeithasol a bod yn rhan o brosiect arbennig.
- Trwydded yrru a defnydd o gerbyd gydag yswiriant priodol.

#### Dymunol

- Profiad o weithio mewn ysgol neu leoliad addysgiadol arall ac/neu brofiad o weithio mewn sefydliad celfyddydol. Profiad o redeg clybiau ar ôl ysgol i ddisgyblion.
- Profiad o gydlynnu a threfnu digwyddiadau, clybiau, cyngherddau.
- Profiad o gwblhau tasgau cysylltiadau cyhoeddus, ac/neu weithio mewn marchnata neu ddatblygu cynulleidfaoedd, creu poster, cyfryngau cymdeithasol.
- Profiad o weithio fel gwirfoddolwr, ac/neu reoli gwirfoddolwyr.

**Cyn penodi:**

- Rhaid cael gwybodaeth gan ganolwyr ar gyfer ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer.
- Bydd angen Datganiad Manwl o'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (y Swyddfa Cofnodion Troseddol cyn hyn) cyn medru cadarnhau unrhyw benodiad.

**Cyfnod prawf:**

Bydd cyfnod prawf o 3 mis.

**Cychwyn:**

Ebrill 2020

